| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Y CYNGOR |
| DYDDIAD | 13 MAI 2010 |
| PWNC | ADOLYGU'R PWYLLGORAU CYNLLUNIO |
| AWDURON | DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL AC ALED DAVIES, PENNAETH RHEOLEIDDIO |
| ARWEINYDDION PORTFFOLIO | CYNG. J R JONES, UWCH ARWEINYDD ADNODDAU<br>CYNG. GARETH ROBERTS, UWCH ARWEINYDD AMGYLCHEDD |

**Atodiadau**

1. Atodir y dogfennau canlynol i'r adroddiad yma:
Atodiad 1 – Model ar gyfer pwyllgor cynllunio sirol
Atodiad 2 – Protocol ar gyfer cynghorwyr

**Cyflwyniad**

2. Yn dilyn nifer o adroddiadau allanol ynglŷn â threfniadau'r Cyngor i wneud penderfyniadau cynllunio, aeth Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Ardal ati i ystyried trefniadau neillog ar gyfer y pwyllgorau cynllunio. Canlyniad hynny ydi'r cynigion a geir yma, sef un pwyllgor cynllunio sirol i gymryd lle'r pwyllgorau cynllunio ardal presennol a'r pwyllgor cynllunio canolog presennol. Noder nad yw'r cynigion yn ymwneud â'r pwyllgorau gwasanaeth neu chwarterol yn yr ardal - dim ond y pwyllgorau cynllunio.

**Y Cynigion**

3. Mae manylion llawn y cynigion i'w cael yn atodiadau 1 a 2. Gellir crynhoi prif nodweddion y cynigion fel a ganlyn:

- Un pwyllgor sirol o 15 aelod ar sail cydbwysedd gwleidyddol a chydbwysedd ardal (ond ni fyddai aelodau'r Bwrdd yn gymwys i wasanaethu ar y pwyllgor)
- Aelod(au) lleol i gael yr hawl i fynychu i gyflwyno dadleuon ar ran etholwyr
- Aelod(au) lleol i barhau i gael cyfeirio mater i bwyllgor (yn hytrach na chael penderfyniad dirprwyedig gan swyddog)
- Holl aelodau'r pwyllgor i dderbyn hyfforddiant cyn cael gweithredu arno
- Y pwyllgor i gyfarfod bob 3 wythnos (15 gwaith y flwyddyn)
- Lleoliad y pwyllgor i gylchdroi o gwmpas yr ardaloedd h.y. 5 cyfarfod yr un yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau, ond gyda rhagdybiaeth o blaid penderfynu ar gais yn lleol
- Penderfyniadau croes i bolisi i gael eu gohirio am gyfnod "cnoi cil"
- Dim hawl i alw penderfyniadau i'r canol neu eu cyfeirio'n uwch

**Cyd-destun adroddiadau archwilio**

4. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o wasanaeth cynllunio'r Cyngor yn ystod 2007. Roedd hwn yn ddilyniant i archwiliad blaenorol yn 2004. Yn eu hadroddiad, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2008, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru nifer o argymhellion. Yn eu mysg yr oedd argymhelliad i adolygu

trefniadau'r Pwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Hefyd gwnaed argymhellion ynglŷn â sicrhau cysondeb ar draws y Pwyllgorau Cynllunio o safbwynt rhaglenni a phapurau ategol, ymweliadau safle a gwneud penderfyniadau yn groes i argymhelliad.

5. Er mwyn gweithredu ar argymhellion y Swyddfa Archwilio, comisiynwyd adolygiad o'r drefn penderfynu gan gwmni o'r enw Urban Vision. Cyflwynodd y Cwmni eu hadroddiad yn nechrau 2009 gydag argymhelliad y dylid symud tuag at drefniant un Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y sir gyfan. Roedd nifer o argymhellion dilynol ynglŷn â dull gweithredu y Pwyllgor gan gynnwys rhaglen hyfforddiant i'r aelodau, lleoliad y pwyllgor, gwybodaeth i'r cyhoedd, hawl i'r cyhoedd siarad yn y pwyllgor, ffurf adroddiadau, diwygio'r Cynllun Dirprwyo, trefn is-bwyllgorau ymweld, â threfniadau swyddfa gefn ar gyfer gweinyddu ceisiadau cynllunio.

6. Hefyd, fel rhan o amcanion corfforaethol y Cyngor i edrych ar a gweithredu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon i ddarparu Gwasanaethau, comisiynwyd cwmni Alexander Consultants i gynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod yr Haf 2009, oedd yn cynnwys asesiad manwl o brosesau a threfniadau gwaith y Gwasanaeth. Nodwyd fod y drefn pwyllgorau ardal bresennol yn creu gwaith sylweddol i'r Gwasanaeth, yn dyblygu gwaith, yn cyfrannu at anghysondebau mewn prosesau ac yn cyfyngu ar gyfleoedd y Gwasanaeth i allu gweithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol.

7. Yn ystod y broses o gael syniadau ar gyfer arbedion, nodwyd y posibilrwydd o gael un Pwyllgor Cynllunio i'r sir. Cafodd y syniad ei drafod yn y gweithgor a'r gweithdai a phenderfynwyd ei osod yng nghategori C, sef syniadau i gael ystyriaeth bellach yn ystod 2010/11.

8. Yn fwy diweddar mewn archwiliad ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod amheuaeth am effeithlonrwydd y pwyllgorau cynllunio ardal ac nad yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer pwyllgorau cynllunio yn gynaliadwy os yw'r Cyngor am ddatblygu gwasanaeth cynllunio modern.

**Manteision ac anfanteision**

9. Edrychodd y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar fanteision ac anfanteision trefn newydd.

Nodwyd mai manteision y drefn newydd fyddai :

- Caniatau i aelodau'r pwyllgor gael eu hyfforddi'n drylwyr a dod yn arbenigwyr yn eu maes.
- Cryfhau hawliau aelodau lleol i drafod ceisiadu yn eu cymuned trwy eu rhyddhau o'r gwaharddiad presennol rhag siarad yn gyhoeddus ar gais ymlaen llaw, a chaniatáu iddynt fynegi barn o blaid neu yn erbyn.
- Diddymu hawl y Pennaeth Rheoleiddio i alw cais i mewn i bwyllgor canol. (Caniateir cyfnod "cnoi cil" ar rai ceisiadau ond bydd y cyfrifoldeb o wneud penderfyniad yn parhau gyda'r un pwyllgor sirol.)
- Sicrhau cysondeb mewn ymdrin â cheisiadau i ymgeiswyr ymhob rhan o'r sir.

- Gwella effeithlonrwydd y broses gynllunio trwy ganiatau i adnoddau, yn amser swyddogion ac aelodau, gael eu harallgyfeirio.
- Gwireddu arbedion ariannol ac effeithlonrwydd o dros £100,000 (£72,000 ariannol a £33,000 effeithlonrwydd).

Nodwyd y canlynol fel anfanteision:

- Y byddai'n anos i aelodau o'r cyhoedd ac ymgeiswyr fynychu'r pwyllgor pe digwydd iddo fod yn cyfarfod mewn rhan arall o'r sir i drafod cais (neu byddai'n raid gohirio trafodaeth ar gais hyd y bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn yr ardal berthnasol).
- Diddymu'r rhwyd diogelwch o gyfeirio penderfyniadau croes i bolisi neu lle mae risgiau'n bodoli i bwyllgor canol - dan y drefn newydd dim ond yr un pwyllgor sirol fyddai'n ystyried y cais.
- Llwyth gwaith trwm i'r pwyllgor sirol oni ddiwygir y cynllun dirprwyo.
- Ansicrwydd am yr effaith ar y pwyllgorau ardal (gwasanaeth) ac ar y swyddfa ardal.

**Ymgynghori**

10. Wedi ystyried yr adroddiadau archwilio, ymchwilio i wahanol drefniadau a chael cyflwyniad gan ddirprwyaeth o Gyngor Sir Powys, sydd eisoes wedi symud o drefn pwyllgorau ardal i un pwyllgor sirol, daeth y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i'r casgliad unfrydol y gellid cymeradwyo model ar gyfer un pwyllgor cynllunio i'r sir.

11. Gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor i sesiwn codi ymwybyddiaeth er mwyn rhoi cyfle iddynt gael cyflwyniad ar fanylder y drefn newydd a gofyn cwestiynau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd 50 wedi manteisio ar y cyfle.

12. Trafodwyd y mater yn y Prif Bwyllgor Craffu ar 23 Ebrill pryd y penderfynwyd argymell y trefniant i'r Cyngor gyda dau newid sef sicrhau cydbwysedd rhwng yr ardaloedd ar y pwyllgor (gweler cymal 6 o'r model) a chael rhagdybiaeth o blaid cael trafod cais yn lleol (gweler cymalau 13 ac 14 o'r model)

**Amserlen**

13. Pe bai'r Cyngor yn derbyn argymhelliad y Prif Bwyllgor Craffu rhagwelir y bydd angen cyfnod o rhwng 3 a 4 mis er mwyn sefydlu'r pwyllgor, hyfforddi'r aelodau a chyflwyno'r newidiadau i asiantwyr.

**Argymhelliad**

14. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn argymhelliad y Prif Bwyllgor Craffu a mabwysiadu trefniant un pwyllgor cynllunio sirol i'r Cyngor, yn unol â'r atodiadau.

**ATODIAD 1**

**MODEL ARFAETHEDIG AR GYFER UN PWYLLGOR CYNLLUNIO AR GYFER AWDURDOD CYNLLUNIO GWYNEDD**

Mae'r cynigion ar gyfer un Pwyllgor Cynllunio fel a ganlyn:

**Amlder Cyfarfodydd**

1. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn unol â rhaglen bendant o gyfarfodydd wedi eu seilio ar 15 cyfarfod y flwyddyn. Byddai hyn yn golygu trefniant tebyg i beth sydd yn ei le ar hyn o bryd ar gyfer Bwrdd y Cyngor h.y. bob 3 wythnos ar wahân i gyfnodau gwyliau. Byddai hyn yn hwyluso'r gwaith o ymdrin â cheisiadau cynllunio yn gyflymach o gymharu â'r trefniadau presennol lle mae'r Pwyllgorau Cynllunio yn cyfarfod bob 4, ac yn achlysurol bob 5 wythnos ym mhob ardal unigol. Gall y trefniadau presennol gael effaith andwyol ar gyrraedd targedau cenedlaethol a lleol.

2. Mewn amgylchiadau arbennig e.e. ceisiadau cynllunio mawr a chymhleth neu geisiadau neu grŵp o geisiadau ag oblygiadau strategol i'r Sir a thu hwnt megis safle tirlenwi; ceisiadau ail-ddatblygu aml-ddefnydd o dros 2 hectar; marina a.y.y.b. Byddai hawl i gynnal pwyllgor cynllunio arbennig i ymdrin â'r cais/ceisiadau hynny. Byddai pwyllgor arbennig yn cael ei awdurdodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio mewn ymgynghoriad ar Pennaeth Adran Cyfreithiol a Democratiaeth.

**Cylch Gorchwyl y Pwyllgor**

3. Bydd y Pwyllgor yn ymdrin â'r holl geisiadau cynllunio nad ydynt wedi eu dirprwyo yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio'r Cyngor. Bydd y trefniadau sydd eisoes ar y gweill i wneud man newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo megis cyfeirio ceisiadau syml o dan Rheol 3 a Rheol 4 oddi wrth y Pwyllgor hefyd yn gymorth i wneud y drefn yn fwy effeithiol. Yn ogystal, bydd hefyd angen adolygu mewnbwn aelod lleol i benderfyniadau dirprwyedig trwy roi trefniadau yn eu lle i gryfhau a ffurfioli'r cyswllt gyda'r Swyddog Achos.

4. Nid oes unrhyw gynigion i newid y meini prawf a phrosesau presennol mewn perthynas ag aelodau yn galw unrhyw gais cynllunio penodol i'r Pwyllgor Cynllunio. Bydd y drefn o gyflwyno neges ysgrifenedig neu e bost yn cyflwyno rhesymau cynllunio perthnasol o fewn y cyfnod ymateb o 16 diwrnod yn parhau.

**Aelodaeth y Pwyllgor**

5. Bydd 15 aelod ar y Pwyllgor. Byddai cynrychiolaeth yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

6. Argymhellir y dylai grwpiau gwleidyddol gydweithio i sicrhau bod traean o aelodaeth y pwyllgor yn cael ei enwebu o bob ardal.

7. Wrth gyflwyno un Pwyllgor Cynllunio i'r Sir, byddai'r 60 aelod arall yn awtomatig yn dod yn "aelodau lleol" o dan y protocol cynllunio a thrwy hyn, fe fyddent yn wynebu lleihad sylweddol yn y cyfyngiadau sydd arnynt o ran ymdrin gyda'r cyhoedd mewn perthynas â materion cynllunio. Bydd hyn yn gryn wahaniaeth o'u rôl presennol, gan y bydd y newid yn eu rhyddhau i lobio, i fynegi barn glir ymlaen llaw a hefyd yn rhoi'r hawl iddynt i siarad fel aelod lleol yn y Pwyllgor Cynllunio yn hytrach nag fel aelod cynllunio. Mae mwy o wybodaeth ar hyn wedi ei gynnwys yn y Protocol Cynllunio.

8. Dylid ystyried cynnal pwyllgorau yn ystod y dydd fel y gellir sicrhau presenoldeb priodol o swyddogion proffesiynol ac i gyfuno'r Pwyllgor gyda threfniadau'r ymweliad safle.

9. O ystyried natur a llwyth gwaith yr un Pwyllgor Cynllunio a'r angen am hyfforddiant rheolaidd, dylai'r Cyngor ystyried os dylid cyfyngu aelodau sydd wedi eu dewis i fod ar y Pwyllgor rhag bod yn aelodau ar nifer fawr o bwyllgorau rheoleiddio neu craffu arall.

10. O ystyried yr uchod ni chaniateir i aelodau o Fwrdd y Cyngor hefyd fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio arfaethedig.

**<u>Lleoliad y Cyfarfodydd</u>**

11. Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar sail rota yn y canolfannau pwyllgorau presennol sef, Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Byddai 5 cyfarfod yn cael ei gynnal ymhob ardal.

12. Wedi dweud hyn, ac yn ddibynnol ar lwyth gwaith y Pwyllgor, gellid cyflwyno ychydig o hyblygrwydd i ail leoli rhai pwyllgorau. Er enghraifft, gallai ambell bwyllgor Meirionnydd gael ei gynnal ym Mhenrhyndeudraeth neu, trwy drefniant gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol neu ym Mhlas Tan y Bwlch. Yn ogystal, ac fel enghraifft, gallai Pwyllgorau hefyd gael eu cynnal ym Mangor os oes ceisiadau cynllunio mawr gyda lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus wedi ei seilio ar faterion manwerthu, Y Brifysgol ayb.

13. Gallai ymgeiswyr unigol neu aelod lleol wneud cais i ofyn i'r Cyngor i gais cynllunio gael ei ddal yn ôl hyd nes y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn eu canolfan dewisol hwy. Os nad yw'r ymgeisydd neu'r aelod lleol yn gwneud cais ffurfiol o'r fath byddai cais yn cael ei gyflwyno yn awtomatig i'r pwyllgor nesaf er mwyn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau.

14. Os yw Pennaeth Adran Rheoleiddio yn rhagweld bod cais cynllunio yn debygol o ddenu gwrthwynebiad sylweddol neu os yw'r ymgynghoriad

statudol yn arwain at wrthwynebiad o'r fath yna, yn dilyn trafodaeth gyda Cadeirydd y Pwyllgor a'r aelod lleol, y gall y Pennaeth sicrhau bod y cais yn cael ei ddal yn ôl hyd nes y cynhelir cyfarfod yn yr ardal y mae'r cais yn tarddu ohono.

15 Bydd y Cyngor yn anelu i gael y ddarpariaeth technoleg gwybodaeth briodol yn ei le ar gyfer cyflwyniadau i'r cyhoedd ag aelodau ynghyd â darparu offer cyfieithu effeithiol ym mhob un o'r lleoliadau pwyllgor fydd yn cael eu defnyddio.

16. Bydd cyfraniadau gan 3ydd partion yn rhan annatod o'r trefniadau pwyllgor newydd ac fe fydd ar gael ym mhob un o'r lleolaiadau.

17. Bydd gosodiad y lleoliadau pwyllgor yn cael ei adolygu gyda phwyslais ar drolwyder, bod yn gynhwysol a defnydd o dechnoleg gwybodaeth.

**Y Pwyllgor Cynllunio Canolog**

18. O dan y trefniant newydd, byddai'r Pwyllgor Cynllunio Canolog sydd yn bodoli o dan y trefniadau presennol, yn cael ei ddileu. Fodd bynnag, os yw hyn yn digwydd, bydd rhaid i'r Cyngor ymgorffori rhai o brosesau a dyletswyddau yn ymwneud â rôl y Pwyllgor Cynllunio Canolog i mewn i'r strwythur pwyllgor newydd. Cynigir y byddai hyn yn cymryd ffurf cyfnod i "gnoi cil" yn hytrach na threfn o gyfeirio i bwyllgor gwahanol. Byddai trefn i gyfeirio cais i gyfnod "cnoi cil" yn debyg i'r trefniant presennol ac mae gwaith ar y gweill i wneud y trefniadau yma yn fwy clir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gyda'r trefniant newydd byddai'r cais yn dod yn ôl i'r un pwyllgor ac yr un 15 aelod, ac fe fyddai yn cael ei gyflwyno iddynt gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei angen, ynghyd ag asesiad cryno o risgiau ac oblygiadau i'r Cyngor os byddai penderfyniad sy'n groes i bolisi yn cael ei gymryd.

19. Byddai'r penderfyniad terfynol, yn dilyn y cyfnod "cnoi cil" o 3 wythnos neu 6 wythnos yn dibynnu ar yr wybodaeth ychwanegol sydd ei angen, yn cael ei wneud gan yr un cynghorwyr ac a gymerodd y penderfyniad gwreiddiol. Mae'r trefniant yma yn cael ei ddefnyddio mewn awdurdodau eraill ac yn wir, mae trefniant tebyg eisoes yn bodoli o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Trefniadau ar gyfer Ymweliad Safle**

**Pwrpas Ymweliad Safle**

20. Pwrpas ymweliad safle yw i gasglu gwybodaeth sydd yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth na fyddai wedi bod ar gael o ddarllen adroddiad y Swyddogion ac ystyried y farn gafodd ei gyfleu yn y Pwyllgor Cynllunio.

**Cais i gynnal Ymweliad Safle**

21. Gall cais i gynnal ymweliad safle gael ei wneud i’r Pwyllgor Cynllunio gan aelod o’r Pwyllgor, aelod lleol neu unrhyw gynghorydd sydd wedi defnyddio eu hawl i alw cais i’r Pwyllgor yn unol â’r trefniadau sydd wedi eu mabwysiadu.

22. Rhaid i bob cais am ymweliad safle sy’n cael ei wneud ddatgan rhesymau CCynllunio llawn ac amlinellu'r materion y byddent yn dymuno eu hystyried tra ar y safle.

23. Os yw cais yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor, bydd y mater yn cael ei ohirio hyd y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Cynllunio.

**Meini prawf ar gyfer cytuno i gynnal Ymweliad Safle**

24. Ar ddisgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, gall ymwelad safle gael ei gynnag 9cyn i’r cais gael ddod gerbron y Pwyllgor am y tro cyntaf). Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gais i’r perwyl hyn yn unol â’r meini prawf yn pwynt 24 isod. Rhaid i geisiadau o’r fath gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig, trwy’r Gwasanaeth Cynllunio o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cynhelir y pwyllgor.

25. Mae ymweliad safle yn golygu gohiriad yn y broses o benderfynu y cais dan sylw a chostau ychwanegol. Tra bod y penderfyniad i gynnal ymweliad safle yn fater i’r Pwyllgor Cynllunio, rhaid i aelodau’r Pwyllgor sicrhau bod panel ddim ond yn cael eu cynnal pan na all y Pwyllgor wneud penderfyniad heb weld y safle eu hunain ac y byddai ymweld â’r safle yn cynnig manteision sylweddol o ran casglu gwybodaeth fyddai yn gymorth i wneud penderfyniad. Enghreifftiau lle na fyddai ymweliad safle yn briodol fyddai:

- Lle mae materion polisi neu materion o egwyddor yn greiddiol
- Lle mae’r aelod yn anghytuno yn syml gyda’r canlyniad a gyflwynir yn yr adroddiad
- Lle mae’r aelod yn dymuno ystyried materion yn ymwneud â therfynau neu anghydfod rhwng cymdogion
- Materion o gystadleuaeth
- Lleihad mewn gwerth eiddo
- Unrhyw fater arall sydd ddim yn ystyriaeth cynllunio materion
- Lle mae cynghorwyr wedi ymweld â’r safle o fewn y 12 mis diwethaf, ar wahân i amgylchiadau arbennig

**Mynychu Ymweliad Safle**

26. Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio fydd yn mynychu yr ymweliad safle.

27. Bydd yr ymweliadau safle yn cael eu c ynnal ar fore'r Pwyllgor Cynllunio.

28. Bydd gan yr ymgeisydd a’r aelod lleol hawl i fynychu'r safle a gallent ateb cwestiynau mewn perthynas â ffeithiau yn unig. Ni fydd trafodaeth ynglŷn â rhinweddau y cais yn cael ei gynnal ar y safle.

29. Nid oes gan y cyhoedd hawl i fynychu'r safle ar wahân i safleoedd cyhoeddus.

**Ymddygiad Mewn Ymweliad Safle**

30. Bydd yr ymweliad yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio (neu gan yr Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) a fydd yn sicrhau fod yr ymweliad yn cael ei gynnal yn drefnus.

31. Ni ddylai aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio wneud sylwadau a fyddai’n rhoi’r argraff eu bod wedi dod i benderfyniad ar rinweddau’r cais yn barod.

32. Ni ddylai Aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio drafod y cais, dim ond i gael eglurder ar unrhyw ffeithiau, ac ni ddylent ddod i benderfyniad pan ar y safle.

33. Os yw aelod yn teimlo fod angen iddo ymweld â’r safle ei hun (efallai am nad oedd hi’n bosibl mynychu’r ymweliad safle), ni ddylai fynd ar y safle ei hun, ni ddylai drafod y cais gyda phartïon sydd â diddordeb, ac, pe byddai unrhyw drafod, sicrhau ei fod yn egluro’n glir y bydd y Pwyllgor yn gwneud y penderfyniad ar ôl yr ymweliad.

34. Wedi’r ymweliad safle, bydd y Penderfynyddion yn trafod y cais yn y Pwyllgor Cynllunio.

**Hyfforddiant Aelodau**

35. Bydd disgwyl i aelodau’r Pwyllgor gael eu hyfforddi er cael gwybodaeth ac arbenigedd i ymdrin gyda maes sydd yn aml yn dechnegol a chymhleth. Bydd rhaglen hyfforddiant ffurfiol yn cael ei threfnu ar gyfer aelodau y Pwyllgor Cynllunio. Byddai y rhaglen yma yn rhan o strategaeth hyfforddiant aelodau’r Cyngor. Byddai’r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno trwy ddefnyddio technegau amrywiol ac ymarferol eu natur ac nid trwy gyfathrebu a hyfforddiant traddodiadol yn unig.

36. Er mwyn cadw arbenigedd a gwybodaeth aelodau ac i wneud defnydd gorau o adnoddau ar gyfer hyfforddiant, bydd aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio yn cael ei seilio ar gylch 4 mlynedd y Cyngor. Byddai

aelodau sydd wedi eu dewis i'w cynrychioli ar y Pwyllgor wedi etholiadau'r Cyngor yn parhau a'u haelodaeth ar y Pwyllgor Cynllunio am 4 mlynedd llawn, oni bai bod amgylchiadau penodol yn gorfodi newidiadau.

37. Byddai rhaid cyrraedd y lefel sylfaenol o arbenigedd a mynychu hyfforddiant dechreuol cyn y gallai unrhyw aelod gymryd ei sedd ar y Pwyllgor Cynllunio.

38. Byddai'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn fandadol.

**Cyfeirio Penderfyniadau yn Uwch**

39. Yr unig hawl i gyfeirio penderfyniadau yn uwch o fewn y drefn fydd yr hawl statudol gan y Swyddog Monitro ar y sail y byddai penderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio yn creu risg ariannol neu gyfreithiol sylweddol i'r Cyngor ar fwy nag un achlysur ac mewn asesiadau annibynnol o'r drefn a phrosesau Gwasanaeth Cynllunio a gomisiynwyd gan y Cyngor.

**Gwelliant Corfforaethol**

40. Mae'r cynigion a amlinellir uchod yn cyfrannu at welliannau corfforaethol. Nid yw'r trefniant presennol o 4 pwyllgor cynllunio ac aelodaeth o 75 aelod yn gynaliadwy. Mae wedi ei amlygu fel risg ac fel rhwystr i wella'r Gwasanaeth Cynllunio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

41. Mae'r trefniadau arfaethedig yn cynnig cyfraniad sylweddol tuag at wella iechyd corfforaethol y Cyngor a gall wneud cyfraniad sylweddol tuag at y targed arbedion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd nesaf.